monmouthshire
sir fynwy

## SIR FYNWY

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR GREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

---

## 2022-2023

DRAFT

**NEGES GAN AELODAU CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG SIR FYNWY**

Hoffai aelodau Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Sir Fynwy ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CYS) ddiolch i bawb yn y sector addysg am eich gwaith gwych yn darparu gofal, cefnogaeth ac addysg i blant a phobl ifanc yng Nghymru er gwaethaf y llu heriau ac ansicrwydd a wynebwyd wrth i ni ddod allan o'r pandemig. Bu hefyd yn amser o newid mawr a thwf wrth i ysgolion symud i'r Cwricwlwm newydd i Gymru 2022.

Hoffai aelodau atgoffa ymarferwyr sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol a Chrefydd Gwerthoedd a Moeseg (CGM) fod CYS yma i'ch cefnogi gyda chyngor ar addysgu, dysgu ac adnoddau, yn ogystal â chyngor ar CGM yn y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Yn ychwanegol, mae cefnogaeth gan CYS hefyd ar gael ar gyfer y Weithred Ddyddiol o Addoli ar y Cyd.

Mae CYS Sir Fynwy yn croesawu gohebiaeth drwy'r cysylltiadau isod:

**Wendy Barnard, Clerc CYS Sir Fynwy**
wendybarnard3@monmouthshire.gov.uk

**Hayley Jones, Partner Cwricwlwm (CYS a CGM) – EAS De Ddwyrain Cymru**
hayley.jones@sewaleseas.org.uk

DRAFT

**ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG SIR FYNWY AR GREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG**

**2022-2023**


| CYNNWYS | | TUDALEN |
|---|---|---|
| **ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYS** | | **3** |
| 1.1 | Dyletswydd i sefydlu CYS | 3 |
| 1.2 | Cyfansoddiad CYS | 3 |
| 1.3 | Aelodaeth CYS | 3 |
| 1.4 | Swyddogaethau CYS | 4 |
| 1.5 | Cyfarfodydd | 4 |
| 1.6 | Cylchredeg yr Adroddiad | 4 |
| **CRYNODEB GWEITHREDOL O'R CYNGOR A RODDWYD GAN CYS** | | **5** |
| **ADRAN 2: CYNGOR AR ADDYSG GREFYDDOL** | | **9** |
| 2.1 | Y Maes Llafur Cytunedig lleol | 9 |
| 2.2 | Safonau mewn Addysg Grefyddol | 9 |
| 2.3 | Dulliau o addysgu, deunyddiau addysgu a hyfforddiant athrawon | 10 |
| **ADRAN 3: CYNGOR AR ADDOLI AR Y CYD** | | **12** |
| 3.1 | Adroddiadau arolygu ysgolion | 12 |
| 3.2 | Ceisiadau am benderfyniadau | 12 |
| 3.3 | Ymweliadau i ysgolion | 12 |
| **ADRAN 4: MATERION ERAILL** | | **13** |
| 4.1 | CYSAG Cymru | 13 |
| 4.2 | Addysg am yr Holocost | 13 |
| 4.3 | Cwricwlwm i Gymru 2022 | 13 |
| 4.4 | Hyfforddiant aelodau CYS | 14 |
| 4.5 | Aelodau CYS | 14 |
| 4.6 | Cymorth Proffesiynol EAS i CYS Sir Fynwy | 15 |

| | |
|---|---|
| **ATODIAD 1: AELODAETH CYSAG SIR FYNWY HYDREF 2021- HAF 2022** | **16** |
| **ATODLEN 2: RHESTR AC AGENDA CYFARFODYDD** | **17** |
| **ATODIAD 3: CYLCHREDEG YR ADRODDIAD** | **19** |


DRAFT

**ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR GREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG SIR FYNWY**

**2022-2023**

## ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYS

### 1.1 Dyletswydd i sefydlu CYS

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CYS) o fewn eu hardal leol dan adran 390 Deddf Addysg 1996, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 18 Mai 2023, fe wnaeth Cyngor Sir Fynwy sefydlu ei CYS yn ffurfiol, gan gymryd lle'r corff blaenorol sef y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG). Caiff swyddogaethau gwaddol CYSAG eu gweithredu gan CYS nes daw'r maes llafur cyn Cwricwlwm i Gymru 2022 i ben dros gyfnod.

### 1.2 Cyfansoddiad CYS

Mae angen cynrychiolaeth ar CYS fel sy'n dilyn:

i. Enwadau Cristnogol a chrefyddau ac enwadau crefyddol eraill, a chredoau athronyddol anghrefyddol, y nifer o aelodau a benodir i'r grŵp i gynrychioli crefydd, enwad neu gred athronyddol anghrefyddol yn fras yn adlewyrchu, cyn belled ag sy'n gyson gyda chyflawni swyddogaethau'r grŵp yn effeithiol, o nerth cymesurol y grefydd, enwad neu gred athronyddol anghrefyddol yn yr ardal ("grŵp ffydd a chredo");
ii. Cynrycholwyr cymdeithasau athrawon;
iii. Cynrychiolwyr yr awdurdod lleol.

Penderfynodd yr Awdurdod Lleol i ddyrannu cynrychiolaeth CYS fel sy'n dilyn: 13 cynrychiolydd ar gyfer y grŵp ffydd a chredo, 7 cynrychiolydd ar gyfer cymdeithasau athrawon a 6 cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol. Yn ychwanegol, gall SAC gyfethol hyd at 2 unigolyn fel aelodau heb bleidlais. Mae'r ddau le cyfethol yn wag ar hyn o bryd.

### 1.3 Aelodaeth CYS

Rhoddir y rhestr aelodaeth yn dangos y sefyllfa ar gyfer 2022-2023 yn Atodiad 1.

Yn unol â'r gofynion deddfwriaethol newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, mae aelodaeth CYS yn ehangach na'r hen CYSAG gan fod y grŵp ffydd a chredo yn awr yn cynnwys cynrychiolaeth o rai gyda chredoau athronyddol anghrefyddol yn ogystal ag enwadau Cristnogol a chrefyddau ac enwadau crefyddol eraill. Mae'r Awdurdod Lleol wrthi'n edrych am ddatganiadau diddordeb yng nghyswllt lleoedd gwag o fewn y grŵp hwn.

Yng nghyswllt lleoedd gwag yn gyffredinol, mae'r Awdurdod Lleol wrthi'n adolygu ei drefniadau ar gyfer penodi aelodau newydd i CYS ac yn cynnig ffurfioli'r broses benodi.

Mae 2 le cyfethol hefyd yn wag ac mae gwaith yn mynd rhagddo i lenwi'r lleoedd hyn. Bu trafodaeth am gyfethol cynrychiolaeth ieuenctid drwy'r llwybr hwn.



DRAFT

## 1.4 Swyddogaethau CYS

- Cynghori'r Awdurdod Lleol ar addoli, addysg grefyddol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'r maes llafur a gytunwyd yn cynnwys dulliau addysgu, cyngor ar ddeunyddiau a darpariaeth hyfforddiant ar gyfer athrawon

- Ystyried p'un ai i argymell i'r awdurdod lleol y dylid adolygu'r maes llafur cyfredol a gytunwyd drwy gynnull Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig.

- Ystyried os dylid amrywio'r gofyniad i addysg grefyddol mewn ysgol sirol fod yn 'fras Gristnogol o ran natur' (penderfyniadau)

- Adrodd yn flynyddol i Lywodraeth Cymru ar ei weithgareddau ar ran yr Awdurdod Lleol.

## 1.5 Cyfarfodydd

Cyfarfu CYSAG ddwywaith yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023:

26 Hydref 2022
8 Mawrth 2023

Yn ychwanegol, fe wnaeth CYS hefyd gwrdd ar yr achlysur dilynol yn yr un flwyddyn academaidd:

14 Mehefin 2023

Bu pob un o'r tri chyfarfod yn hybrid yn ystod 2022-2023. Fodd bynnag, penderfynwyd lle'n bosibl y cynhelir cyfarfodydd mewn safleoedd eraill tebyg i ysgolion neu fannau addoli.

## 1.6 Cylchredeg yr adroddiad

Caiff copïau o'r adroddiad hwn eu cylchredeg yn electronig i'r cyrff a'r sefydliadau hynny a restrir yn Atodiad 3. Mae hefyd ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol a gwefan CYSAG Cymru.

DRAFT

**CRYNODEB GWEITHREDOL O GYNGOR A RODDWYD GAN CYS (CYSAG CYN 1 MAI 2023)**

**Crynodeb o'r cyngor a roddodd CYS i'r awdurdod lleol**

**ADDYSG GREFYDDOL**

**Mater**

Monitro darpariaeth a safonau mewn Addysg Grefyddol.

**Camau Gweithredu**

1. CYS yn ystyried a dadansoddi adroddiadau arolygu ysgolion ac yn casglu yr wybodaeth a all ohonynt yn ymwneud ag addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Os oes unrhyw broblemau ynghylch Addysg Grefyddol, tebyg i beidio cyflawni gofynion statudol, yna bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithredu ar hyn.

2. Fel arfer mae CYS yn ymweld ag ysgolion yn flynyddol i gael cyflwyniad ar Addysg Grefyddol/Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn yr ysgol. Fodd bynnag ni wnaeth CYS ymweld ag unrhyw ysgolion yn ystod 2022-2033.

**Mater**

Cyflawni'r gofyniad cyfreithiol i adolygu'r maes llafur a gytunwyd ar gyfer Addysg Grefyddol bob pum mlynedd a sicrhau y caiff y maes llafur cytunedig ei weithredu mewn ysgolion.

**Camau Gweithredu**

1. Yn 2008 fe wnaeth y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig gymeradwyo a mabwysiadu maes llafur newydd cytunedig ar gyfer ysgolion yr Awdurdod, a weithredwyd o fis Medi 2008. Ym mis Mehefin 2013 fe wnaeth y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig gymeradwyo ailfabwysiadu Maes Llafur Cytunedig Sir Fynwy ar Addysg Grefyddol gyda dealltwriaeth y byddai'r maes llafur yn cael ei adolygu unwaith y ceir gwybodaeth bellach yng nghyswllt yr asesiad a'r adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol.

2. Yn ddilynol cafodd CYSAG (fel yr oedd bryd hynny) ddiweddariadau drwy e-bost am ddatblygiadau o fewn y Cwricwlwm a Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau.

3. Yn ystod 2020-2021 ymatebodd CYSAG i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Canllawiau ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru 2022.

4. Yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau ar Grefydd, Gwrthoded a Moeseg, cynghorodd CYS yr awdurdod lleol i gynnull cynhadledd Maes Llafur Cytunedig i drafod mabwysiadu neu addasu fframwaith Maes Llafur Cytunedig Sir Fynwy.

**DEUNYDDIAU ADDYSGU**
**Mater**

Sicrhau y caiff ysgolion eu hysbysu am adnoddau addas ar gyfer Addysg Grefyddol/ Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

**Cam Gweithredu**

Anfonwyd yr wybodaeth ac adnoddau ddilynol i ysgolion, gyda Aelodau CYSAG hefyd yn cael copi o'r wybodaeth.

1. Hysbyswyd ysgolion am Wythnos Rhyng-ffydd 2022, 12 i 19 Tachwedd. Mae adnoddau ar gael ar eu gwefan https://www.interfaithweek.org – mae hyn yn cynnwys cynlluniau gwersi, astudiaethau achos a deunydd addoli ar y cyd addas ar gyfer cynradd i ôl-16.

2. Hysbyswyd ysgolion am thema Diwrnod Cofio'r Holocost 2023 sef 'Pobl Gyffredin'. Mae adnoddau'r holocost ar gael ar eu gwefan www.hmd.org.uk – maent yn cynnwys cynlluniau gwersi, pytiau ffilm, astudiaethau achos, deunydd addoli ar y cyd/gwasanaeth a dalenni gwaith addas ar gyfer disgybliob cynradd i ôl-16.

3. Fe wnaeth CYSAG Cymru barhau i ddarparu adnoddau a chyngor ar gyfer Addysg Grefyddol, Crefydd Gwerthoedd a Moeseg ac addoli ar y cyd a ddosbarthwyd i ysgolion drwy CYSAG.

4. Hysbyswyd ysgolion am ymgynghoriadau a chyhoeddiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Dyniaethau a Chrefydd Gwerthoedd a Moeseg.

5. Anfonwyd gwybodaeth am gyfarfodydd rhwydwaith cynradd ac uwchradd ar gyfer arweinwyr cwricwlwm a chynigion help at bob ysgol gynradd ac uwchradd drwy Rwydwaith Dyniaethau EAS.

6. Anfonwyd gwybodaeth am Ysgoloriaethau Farmington 2023-2024 at bob ysgol a'u rhannu drwy gyfarfodydd CYSAG.

**DYSGU PROFFESIYNOL AR GYFER ATHRAWON**

**Mater**
Sicrhau y gall athrawon gael mynediad i ddysgu proffesiynol priodol.

**Cam Gweithredu**
Egwyddor is-leoli yn y Cwricwlwm i Gymru, ac mae EAS wedi cynnig ystod o gyfleoedd dysgu ymarferol ar gyfer pob ymarferydd o fewn y rhanbarth, gyda ffocws ar rannu ymarfer a grymuso athrawon.

Mae EAS wedi darparu hyfforddiant penodol ar Addysg Grefyddol i ymarferwyr ysgolion uwchradd drwy'r Partner Cwricwlwm ar gyfer CGM a CYSAG. Yn ystod 2022-2023 darparodd EAS ddysgu proffesiynol penodol ar CGM i ymarferwyr cynradd ac uwchradd drwy'r Rhwydwaith Dysgu Ysgolion, cyfarfodydd Dyniaethau a'r Partner Cwricwlwm ar gyfer CGM a CYSAG. Roedd ffocws yr hyfforddiant yn cynnwys gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru 2022, dulliau o ddylunio cwricwlwm ac addysgeg, yn ogystal â newidiadau i ddeddfwriaeth ynghylch CGM.

Cafodd ysgolion y rhanbarth hefyd bapurau gwybodaeth cyfredol i benaethiaid ysgol ar CGM, gyda'r nod o ddeall gofynion gorfodol CGM, datblygu dealltwriaeth o CGM a sut yr esblygodd yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru ac ystyried rhai o'r materion cynllunio neu weithredu a all godi oherwydd fframwaith newydd CGM mewn ysgolion.

Hysbyswyd ysgolion am Wythnos Rhyngffydd 2022 a rhannwyd adnoddau ar eu gwefan https://www.interfaithweek.org – roedd hyn yn cynnwys cynlluniau gwersi, astudiaethau achos, deunydd addoli ar y cyd/gwasanaethau ysgolion a dalenni gwaith addas ar gyfer disgyblion cynradd i ôl 16. Gobeithir y bydd ysgolion yn cael y deunyddiau yn ddefnyddiol a gofynnwyd iddynt adael i SAC wybod am eu hymgyfraniad er mwyn clywed am brofiadau a deilliannau dysgu disgyblion.

Hefyd hysbyswyd ysgolion am thema 'Pobl Gyffredin;' Diwrnod Coffa Holocost 2023 a rhannwyd adnoddau ar eu gwefan: www.hmd.org.uk – roedd hyn yn cynnwys cynlluniau gwersi, pytiau ffilm, astudiaethau achos, deunydd addoli ar y cyd/gwasanaethau ysgol a dalenni gwaith addas ar gyfer disgyblion cynradd i ôl 16. Gobeithir y bydd y deunyddiau'n ddefnyddiol i ysgolion a gofynnwyd iddynt adael i SAC wybod er mwyn clywed am brofiadau a deilliannau dysgu disgyblion.

Fe wnaeth CYSAG Cymru barhau i ddarparu adnoddau a chyngor ar gyfer Addysg Grefyddol, Crefydd Gwerthoedd a Moesegu ac addoli ar y cyd a ddosbarthwyd i ysgolion drwy CYS.

Hysbyswyd ysgolion am unrhyw ymgynghoriadau a chyhoeddiadau pellach gan Lywodraeth Cymru ar Ddyniaethau a CGM.

Fe wnaeth y Prosiect Dylunio Cwricwlwm traws-ranbarthol barhau (gyda chefnogaeth Lucy Crehan yn 2022), rhannwyd adnoddau gydag ysgolion a'u cyhoeddi ar Hwb.

Gwahoddwyd athrawon i rannu arfer da gyda CYSAG.

Comisiynodd CYSAG Cymru ddysgu proffesiynol penodol yn ymwneud â CGM, gyda chyllid Llywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd y cyntaf mewn cyfres o fodiwlau ym mis Mawrth 2023. Bwriedir yr adnoddau hyn i gefnogi ymarferwyr gyda'r newidiadau i CGM (gynt Addysg Grefyddol), o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Cafodd y modiwlau eu teilwra yn benodol ac maent yn anelu i gefnogi ymarferwyr. Maent yn helpu gyda symud i ffordd newydd o feddwl, cynllunio a chyflwyno cwricwlwm CSG sy'n bwrpasol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.

## ADDOLI AR Y CYD

### Mater

Sicrhau fod ysgolion yn cyflawni gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd ac yn darparu profiad gwerth chweil i ddisgyblion.

### Camau Gweithredu

1. CYS yn monitro'r adrannau o adroddiadau arolygu sy'n ymwneud ag addoli ar y cyd ac Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol (YMCD) a'r Awdurdod Lleol yn gweithredu ar unrhyw ddiffyg cyflawni gofynion statudol drwy ofyn am eu cynllun gweithredu. Yn ystod 2022-2023 ni wnaeth Estyn ddynodi unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth gyda gofynion statudol o'r arolwg hwn. Ym

mron bob ysgol, dywedwyd fod sgiliau ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn datblygu'n dda a bod disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu dealltwriaeth dda o gredoau ysbrydol a moesegol drwy wasanaethau ysgol, amser myfyrio a chymharu gwahanol fathau o ffydd a chredoau.

2. Mae CYS wedi hysbysu ysgolion am adnoddau a gwefannau priodol sy'n cefnogi addoli ar y cyd mewn ysgolion e.e. Diwrnod Cofio'r Holocost 2022-2023.

3. Penderfynodd CYS i gynnal cyfarfodydd mewn ysgolion yn y sir ac arsylwi gweithred o addoli ar y cyd, lle'n bosibl, i fonitro cyflawni gofynion statudol, darpariaeth ac ansawdd addoli ar y cyd. Caiff hyn ei gynllunio ar gyfer 2023-2024.

**MATERION ERAILL:**

**Nod:** Sicrhau CYS mwy gwybodus drwy ddarparu diweddariadau rheolaidd ar faterion lleol a chenedlaethol.

1. Mae CYS wedi parhau yn aelod o CYSAG Cymru a mae'n derbyn adborth bob tymor o gyfarfodydd y Gymdeithas.
2. Mae'r Partner CGM yn aelod o NAPfRE ac yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd ar ran SAC.
3. Mae aelodau SAC yn derbyn hyfforddiant rheolaidd i gadw'n gyfredol gyda newidiadau deddfwriaethol ac addysgol ac i ddeall rôl a swyddogaeth CYS.
4. Mae CYS yn cymryd addysg am yr Holocost o ddifri ac yn cynghori'r Awdurdod Lleol a'i ysgolion ar hyn.
5. Mae CYS wedi derbyn diweddariad ar ddatblygu a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru 2022 a'r goblygiadau ar gyfer addysg grefyddol. Mae wedi ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar y Cwricwlwm i Gymru.
6. Cafodd CYS ddiweddariadau ar ddatblygu cynnig llawn cymwysterau 14-16 Cymwysterau Cymru ac mae'n cynnig ymgynghori ar y goblygiadau ar gyfer addysg grefyddol, Mae wedi ymateb i hyn.
7. Lle'n bosibl, byddai CYS yn cynnal cyfarfodydd mewn ysgolion yn Sir Fynwy i aelodau ddod yn gyfarwydd gydag Addysg Grefyddol, Crefydd Gwerthoedd a Moeseg ac addoli ar y cyd mewn ysgolion. Nid oedd yn bosibl cynnal cyfarfod mewn ysgol eleni fodd bynnag, mae hyn yn rhywbeth y bwriedir ei wneud yn 2023-2024 lle'n bosibl.

DRAFT

## ADRAN 2: CYNGOR AR ADDYSG GREFYDDOL

### 2.1 Maes Llafur Cytunedig Lleol

Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (Cwricwlwm i Gymru 2022)
Cynullodd Awdurdod Lleol Sir Fynwy Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig. Fe wnaeth y Gynhadledd hon gynghori'r Awdurdod Lleol i fabwysiadu'r Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel sail y Maes Llafur Cytunedig Lleol ar gyfer CGM. Gwnaed newidiadau i sicrhau y gellir darllen y ddogfen fel Maes Llafur Cytunedig CGM Sir Fynwy. Yn unol â'r newidiadau i'r Cwricwlwm i Gymru 2022 cafodd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg eu haddysgu i bob plentyn ysgol gynradd ac efallai ddisgyblion blwyddyn 7 o fis Medi 2022. Gallodd ysgolion uwchradd ohirio addysgu'r cwricwlwm newydd tan fis Medi 2023. Os yw ysgol uwchradd yn dewis gwneud hyn, byddant yn addysgu'r cwricwlwm newydd, yn cynnwys CGM, i flwyddyn 7 a blwyddyn 8 ym mis Medi 2023. Bydd ysgolion uwchradd yn parhau i addysgu'r cwricwlwm fel yr oedd cyn cwricwlwm 2022 (a alwyd yn Cwricwlwm i Gymru 2008), yn cynnwys y Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Addysg Grefyddol, i ddisgyblion ym mlwyddyn 8 ym mis Medi 2022 a bydd cwricwlwm 2008 yn eu dilyn yn ystod eu hamser mewn addysg uwchradd orfodol.

Mae'r Maes Llafur Cytunedig newydd, sy'n cydymffurfio â gofynion newydd Cwricwlwm i Gymru 2022, yn ymwneud â'r pwnc a elwir yn 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg'. Mae'r Maes Llafur Cytunedig blaenorol, sy'n dal yn weithredol ar gyfer ysgolion uwchradd am y rhesymau a ddisgrifir uchod, yn ymwneud â'r pwnc a alwyd yn 'Addysg Grefyddol'. Mae hwn yn wahaniaeth pwysig. Mabwysiadodd Sir Fynwy y 'Fframwaith Enghreifftiol Genedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol ar gyfer rhai 3-19 oed' fel y Maes Llafur Cytunedig ar gyfer 'Addysg Grefyddol' yn 2008.

### 2.2 Safonau mewn Addysg Grefyddol

Mae CYS wedi mabwysiadu nifer o strategaethau ar gyfer monitro'r safonau a gyflawnir mewn addysg grefyddol yn ysgolion yr Awdurdod sy'n cynnwys y dilynol.

### Adroddiadau Arolwg Ysgolion

Bu'n arfer gan CYS i graffu ar adrannau perthnasol adroddiadau arolwg ysgolion Estyn ar gyfer ysgolion ar draws Sir Fynwy ac os oes unrhyw faterion yn dod i'r amlwg yn ymwneud ag addoli ar y cyd, tebyg i fethiant i gyflawni gofynion statudol, yna mae'r Awdurdod Lleol yn dilyn hyn gan ofyn am eu cynllun gweithredu. Cafodd y broses hon ei hailddechrau yn 2022-2023 yn dilyn pandemig Covid-19. Nid oes unrhyw ddyfarniadau pwnc yn fframwaith arolwg bresennol Estyn. Yn lle hynny, mae aelodau yn derbyn gwybodaeth o'r adroddiadau yn ymwneud â sylwadau Estyn o ddarpariaeth YMCD ysgolion.

### Adroddiadau am Arholiadau

Bu'n arfer gan CYS i ddadansoddi canlyniadau arholiadau dros gyfnod o dair blynedd a dynodi tueddiadau mewn perfformiad wedi eu meincnodi yn erbyn data Cymru gyfan.

Fodd bynnag, oherwydd canllawiau parhaus gan Lywodraeth Cymru ar y ffordd y cyflwynir data ac i osgoi cymhariaeth fympwyol ar ysgolion, ni chyflwynwyd data cymharol ar arholiadau i aelodau ar gyfer arholiadau a ddyfarnwyd yn 2021-2022. Bu, a bydd yn parhau i fod, berthynas lawer nes rhwng yr Awdurdod Lleol a CYSAG. Gall

DRAFT

EAS ddynodi ysgolion sydd angen cefnogaeth ychwanegol fel canlyniad i hunanwerthusiad yr ysgolion eu hunain, arolygiadau Estyn a chydweithio gyda EAS.

Drwy gyfarfodydd o ymarferwyr EAS Dyniaethau a CGM, cafodd ysgolion eu diweddaru ar newidiadau i'r arholiadau TGAU a TAG ar gyfer Astudiaethau Crefyddol. Cafodd barn yr ymarferwyr a phob mater yn ymwneud ag arholiadau ar gyfer Astudiaethau Crefyddol eu rhannu gyda CYS, CYSAG Cymru, NAPfRE a CBAC.

Yn ystod 2023-2024 bydd S4C yn trafod ffyrdd y gall yr Awdurdod Lleol roi gwybodaeth ystyrlon i CYS am ansawdd Addysg Grefyddol ac Astudiaethau Crefyddol ar CA4 o fewn ei ysgolion.

Cafodd CYS ei hysbysu a bu'n trafod yr heriau cenedlaethol sy'n wynebu Addysg Grefyddol/Astudiaethau Crefyddol a'r gostyngiad yn y nifer sy'n sefyll TGAU a Safon Uwch. Cyhoeddwyd adroddiad gan Gyngor Addysg Grefyddol Lloegr a Chymru. Cafodd CYS ddiweddariad cenedlaethol a bu'n trafod materion o gonsyrn. Cafodd y materion hynny eu rhannu gyda CYSAG Cymru a NAPfRE.

## 2.3 Dulliau Addysgu, Deunyddiau Addysgu a Hyfforddiant Athrawon

### Dysgu Proffesiynol

Mae SAC wedi parhau i ddarparu cyngor ac arweiniad i ysgolion ar addysgeg ac adnoddau. Mae EAS, fel darparydd rhanbarthol gwasanaethau gwella ysgolion a chymorth dysgu proffesiynol i ysgolion ac ymarferwyr, wedi darparu ystod eang o raglenni dysgu proffesiynol, deunyddiau a dulliau a gafodd eu rhannu gydag ysgolion yn y rhanbarth.

Mae EAS yn hysbysebu ei gyrsiau drwy ddysgu proffesiynol parhaus ar-lein. Cynigiodd Mrs Hayley Jones gefnogaeth bwrpasol ar gyfer Addysg Ranbarthol o fewn y rhanbarth yn ystod 2022-2023.

Hysbyswyd SAC fod EAS wedi buddsoddi i gyflwyno cefnogaeth bwrpasol ar gyfer Addysg Grefyddol/Astudiaethau Crefyddol a CGM. Mae hyn yn galluogi ysgolion i dderbyn cymorth uniongyrchol gan y Partner Cwricwlwm ar gyfer Addysg Grefyddol/CGM a CYSAG/CYS, er enghraifft wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru, cynllunio a dylunio eu cwricwlwm CGM a Dyniaethau. Mae ysgolion clwstwr hefyd yn cydweithio, gyda chefnogaeth y cynghorydd, i gyd-adeiladu a chydweithio ar ddylunio cwricwlwm CGM a Dyniaethau ar hyd y continuwm dysgu o 3 i 16 oed. Mae'r cynnig hwn ar gael i bob ysgol ac mae wedi galluogi ysgolion i adeiladu a chynyddu cyd-berchnogaeth ar gyfer datblygu cwricwlwm, addysgeg ac arweinyddiaeth. Mae'r model hwn yn dod y prif sbardun i sicrhau gwireddu'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2022 a chyflwyno dysgu proffesiynol a bydd yn cefnogi'r newidiadau cenedlaethol mewn atebolrwydd a hunanwerthuso. Gall ymarferwyr CGM gael mynediad i ddysgu proffesiynol ac adnoddau EAS ar addysgeg.

### Rhwydwaith Dysgu Ysgolion ar gyfer Addysg Grefyddol

Mae gwaith y Rhwydwaith Dysgu Ysgolion ym mhob consortiwm wedi parhau drwy 2022-2023 a chafodd yr arweiniad a'r gefnogaeth sy'n deillio o'r Rhwydwaith, ynghyd â gwaith cydweithwyr ar draws CYS a NAPfRE ei raeadru i athrawon Addysg Grefyddol.

Mae Rhwydwaith Basaleg wedi cynhyrchu a rhannu adnoddau i gynyddu sgiliau ymarferwyr heb fod yn arbenigo mewn Addysg Grefyddol/CGM drwy grynodebau gwybodaeth ar brif grefyddau y byd. Mae'r adnoddau hyn ar gael i ysgolion cynradd a

hefyd ysgolion uwchradd yng nghofnod Timau Dyniaethau EAS a chaiff pob cyfarfod Dyniaethau eu recordio a'u storio yn y ffeiliau yno i ymarferwyr ddychwelyd atynt. Mae cymorth bwrpasol hefyd ar gael fel sydd angen.

**Deunyddiau Addysgu**

Mae CYS wedi hysbysu ysgolion am ystod eang o ddeunyddiau addysgu fel sy'n dilyn:

**Ysgoloriaethau Farmington**

Mae SAC wedi rhoi gwybodaeth i ysgolion Sir Fynwy am ysgoloriaethau Farmington 2022-2023 sydd ar gael yn rhad ac am ddim i athrawon addysg grefyddol yn y Deyrnas Unedig. Gall ymarferwyr astudio unrhyw agwedd o addysg grefyddol a ddymunant ond rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr y gellir gweld bod eu gwaith o werth uniongyrchol i addysgu Addysg Grefyddol mewn ysgolion. Bydd yr ysgoloriaeth yn talu am gost hyfforddiant, bwyd a llety lle'n briodol, teithio lleol hanfodol a, drwy drafod gyda'r ysgolion, gyflog athro/athrawes llanw hyd at bwynt 6 y brif raddfa gyflog. Gall ysgoloriaethau ysgol/cartref fod ar ffurf rhyddhad dydd, er enghraifft am un diwrnod yr wythnos dros dymor neu dros y flwyddyn neu am gyfnodau parhaus hyd at uchafswm o 30 diwrnod. Gellir cymryd ysgoloriaethau seiliedig mewn prifysgol fel bloc o hyd at wyth wythnos neu fel rhyddhau dydd hyd at 30 diwrnod. Mae mwy o wybodaeth ar gyfer ysgolion ar gael yn www.farmington.ac.uk neu E-bost: farmington@hmc.ox.ac.uk

**Adnoddau Diwrnod Cofio'r Holocost 2022**

Ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost 2023, ysgrifennodd CYS at bob ysgol i'w hannog i goffau'r diwrnod mewn rhyw ffordd. Cawsant eu cynghori am y thema a'r adnoddau addysgol am ddim ar yr Holocost sydd ar gael ar wefan Diwrnod Cofio'r Holocost – roedd hyn yn cynnwys cynlluniau gwersi, pytiau ffilm, astudiaethau achos, deunydd ar gyfer addoli ar y cyd/gwasanaethau ysgol a dalenni gwaith addas ar gyfer disgyblion cynradd i fyfyrwyr ôl-16.

**Cafodd y Prosiect Dylunio Cwricwlwm traws-ranbarthol gydag adnoddau Lucy Crehan eu cyhoeddi ar Hwb.**

**Adnoddau a dolen gwefan Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru i gefnogi CGM**
https://www.jhasw.com/

Mae Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru yn anelu i ddadlennu, dogfennu, cadw a rhannu treftadaeth cymunedau Iddewig de Cymru. Mae'r elusen wedi cynhyrchu adnoddau newydd ar yr Holocost ar gyfer athrawon a myfyrwyr yng Nghymru. Mae'r gweithgareddau ystafell ddosbarth, adnoddau addysgol a chanllawiau athrawon newydd ar hanes yr Holocost yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ac ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim.

Mae'r adnoddau yn cynnwys hanesion fideo gan ffoaduriaid a ddaeth yn blant i Gymru yn ystod y 1930au i ddianc erledigaeth gan y Natsïaid. Maent yn adrodd straeon lleol ac yn dangos Iddewon fel rhan o hanes torfol Cymru. Maent hefyd yn rhoi llais i unigoliaeth a dynoliaeth gyffredin bywydau Iddewig y gwnaeth yr Holocost effeithio arnynt neu a gollwyd yn yr Holocost.

Fe wnaeth yr hyfforddiant gyflwyno athrawon i adnoddau addysg Holocost yr elusen ac esbonio'r rhesymeg, ymchwil ac addysgeg sy'n sail i'r deunyddiau newydd hyn.

DRAFT

**Cylchlythyr Dyniaethau EAS**
Caiff Cylchlythyr Dyniaethau EAS ei anfon drwy e-bost at bob ysgol bob tymor. Mae'r cylchlythyr yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am addysgu a chyflwyno CGM, ynghyd â'r diweddaraf am waith a swyddogaeth CYSAG.

DRAFFT

## ADRAN 3: CYNGOR AR ADDOLI AR Y CYD

### 3.1 Adroddiadau Arolygu Ysgolion

Bu'n arfer gan CYS graffu adrannau perthnasol adroddiadau arolygu ysgolion Estyn ar draws Sir Fynwy ac os oes unrhyw faterion yn dod i'r amlwg am addoli ar y cyd, tebyg i beidio cyflawni gofynion statudol, yna mae'r Awdurdod Lleol yn gweithredu ar hyn gan ofyn am eu cynllun gweithredu. Cafodd y broses yma ei hatal yn ystod 2022-23 ac edrychir arno eto ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023.

Penderfynodd CYS barhau i ddefnyddio adroddiadau arolwg i fonitro y caiff gofynion statudol eu cyflawni ac i ddefnyddio pa bynnag sylwadau sy'n berthnasol.

### 3.2 Ceisiadau am Benderfyniadau

Ni chafwyd unrhyw geisiadau gan ysgolion ar gyfer gwneud penderfyniadau ar godi'r gofynion am addoli ar y cyd i fod yn llwyr neu'n bennaf o gymeriad bras Gristnogol.

### 3.3 Ymweliadau Ysgol

Mae CYS yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a roddir i aelodau i arsylwi gweithredoedd addoli ar y cyd mewn ysgolion. Ni chafodd aelodau gyfle i gynnal cyfarfod CYS mewn ysgol nac arsylwi gweithred o addoli ar y cyd yn ystod 2022-2023. Mae hyn yn rhywbeth yr hoffai CYS ei ail-ddechrau yn ystod 2023-2024.

DRAFT

## ADRAN 4: MATERION ERAILL

### 4.1 CYSAG CYMRU

Mae SAC wedi parhau'n aelod o CYSAG Cymru ac mae cynrychiolwyr wedi mynychu ei gyfarfodydd. Yn ystod blwyddyn academaidd 2022-23 rhoddwyd adroddiad llawn i CYSAG Cymru am y materion a ystyriwyd yng nghyfarfodydd CYSAG a chynhaliwyd trafodaethau llawn. Mae CYS yn croesawu gwaith rhagweithiol CYSAG Cymru ar weithredu ar faterion sydd â goblygiadau ar gyfer Addysg Grefyddol a rhoi gwybodaeth lawn i'r aelodau. Cafodd CYS Sir Fynwy adborth rheolaidd gan Mrs Jones a chynrychiolwyr CYS yng nghyfarfodydd CYSAG Cymru.

### 4.2 ADDYSG AR YR HOLOCOST

**Adnoddau Diwrnod Cofio'r Holocost 2023 – 'Pobl Gyffredin'**

Roedd Diwrnod Cofio'r Holocost ar 27 Ionawr 2023 gyda thema 'Pobl Gyffredin' yn amser a neilltuwyd i ddod ynghyd i gofio, myfyrio a dysgu am yr Holocost, erledigaeth gan y Natsïaid a'r hinladdiadau a ddilynodd yn Cambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur, yn y gobaith o gall un dydd fod dyfodol heb hil-laddiad. Rydym yn dysgu mwy am y gorffennol, yn cydymdeimlo gydag eraill heddiw ac yn gweithredu dros well dyfodol.

Cafodd y miliynau o bobl a gollodd eu bywydau yn yr Holocost yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac mewn hil-laddiadau ar draws y byd eu cofio gyda digwyddiad cofio arbennig yn Hyb Cil-y-coed. Trefnwyd y digwyddiad gan Gyfeillion Llyfrgell Cil-y-coed ddydd Iau 26 Ionawr, cyn coffâd blynyddol Diwrnod Cofio'r Holocost ddydd Gwener 27 Ionawr. Roedd aelodau o'r cyhoedd, aelodau o gabinet Cyngor Sir Fynwy a chydweithwyr i gyd yn bresennol i glywed straeon goroeswyr, gwrando ar ddarlleniadau a chynnau canhwyllau er cof am y dioddefwyr.

Fe wnaeth Cymru hefyd gynnal ei hail seremoni ddigidol ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost.

Ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost 2023, bydd CYSAG yn ysgrifennu at bob ysgol i'w hannog i goffau'r diwrnod mewn rhyw ffordd a bydd yn eu cynghori am y thema a'r adnoddau addysgol rhad ac am ddim ar yr Holocost sydd ar gael ar wefan Diwrnod Cofio'r Holocost – mae hyn yn cynnwys cynlluniau gwersi, pytiau ffilm, astudiaethau achos, deunydd addoli ar y cyd/gwasanaethau ysgolion a dalenni gwaith sy'n addas ar gyfer disgyblion cynradd i fyfyrwyr ôl-16.





DRAFT

## 4.3 CWRICWLWM I GYMRU 2022

Cafodd CYS ddiweddariad bob tymor ar y datblygiadau yng nghyswllt Addysg Grefyddol a'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Cafodd CYSAG (fel yr oedd bryd hynny) er gwybodaeth gopi dan embargo o ganllawiau CGM y Cwricwlwm i Gymru ym mis Rhagfyr 2021 a bu modd iddo ddechrau paratoi ar y Maes Llafur Cytunedig newydd (mewn Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig) yn gynnar yn 2022 yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru.

## 4.4 HYFFORDDIANT AELODAU CYSAG

Mae aelodau CYS yn derbyn hyfforddiant ar rolau a chyfrifoldebau CYS ar ddechrau pob blwyddyn academaidd. Cafodd aelodau gyfle i fynychu sesiwn hyfforddi hybrid yn ystod 2022-2023, oedd â ffocws ar rolau a chyfrifoldebau CYSAG/CYS ac ymchwiliodd effaith Cwricwlwm i Gymru 2022 ar CYSAG/CYS a'r newidiadau a weithredwyd yn dilyn hyn.

Dysgu Proffesiynol CYSAG 2022 Mynwy

## 4.5 AELODAETH CYS

Mae rhestr gyfredol o aelodau yn dangos y sefyllfa fel yr oedd ym mis Awst 2023 ar gael yn Atodiad 1.

Mae'r swyddi dilynol yn wag ar hyn o bryd:

**Lleoedd Cyfethol –** Mae CYS wedi trafod cyfethol dau gynrychiolydd ifanc i'r Pwyllgor. Mae gwaith a thrafodaeth am aelodaeth yn y maes hwn yn mynd rhagddynt.

**Pwyllgor A –** Mae gwaith yn mynd rhagddo i lenwi'r pedwar lle gwag ar gyfer cynrychiolwyr ffydd heblaw Cristnogaeth.

**Pwyllgor B –** Mae pedair swydd yn parhau'n wag ar gyfer cynrychiolwyr undebau llafur. Ysgrifennodd CYSAG at ysgolion a rydym yn y broses o ysgrifennu eto i wahodd datganiadau pellach o ddiddordeb mewn llenwi'r lleoedd hynny.

**Swyddogion CYS**

Mae Sharon Randall-Smith yn rhoi cefnogaeth i CYS yn ei swydd fel Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad a Mrs Hayley Jones, Partner Cwricwlwm EAS (CYS a CGM) yn darparu cefnogaeth broffesiynol i CYS Sir Fynwy o fewn rhanbarth EAS. Mae Geraint Edwards yn Gynghorydd Cyfreithiol i CYS. Mae Mrs Wendy Barnard yn parhau i weithredu fel Clerc CYS ac mae aelodau yn ddiolchgar iawn i Mrs Barnard am ei holl waith sy'n hanfodol i weithrediad effeithiol ac effeithlon CYS Sir Fynwy.

**Atodiad 1: AELODAETH CYS SIR FYNWY HYDREF 2022 – HAF 2023**

**ENWADAU CRISTNOGOL A CHREFYDDOL ERAILL, A CHREDOAU ATHRONYDDOL ANGHREFYDDOL – PWYLLGOR A**

Ms. R. Morteo (Eglwys yng Nghymru) (1) o fis Chwefror 2022
Mr. A. Szwagrzak (Archesgobaeth Gatholig) (1)

Cyngor yr Eglwysi Rhyddion (4)
Mrs. S. Gooding
Parch. J. Greaves
Nick Pryor ymddiswyddodd Mawrth 2023
Beryl Quinlan ymddiswyddodd Ionawr 2023

Mrs S. Cave (Ffydd Bahá'í)
Ms. Maddie Saraireh (Ffydd Mwslim)
Chris Francis (Dyniaethydd)

Lleoedd Gwag:
Cyngor yr Eglwysi Rhyddion (2)
Ffydd Hindŵ (1)
Ffydd Iddewig (1)
Ffydd Sikh (1)
Bwdhiaeth (1)

**CYMDEITHASAU ATHRAWON – PWYLLGOR B**

Mr. N. Jenkins
Mrs S. Hamer
Ms. Charlotte Rhodes

***Pedwar lle gwag***

**YR AWDURDOD LLEOL – PWYLLGOR C**
Cyng. Martyn Groucutt (Cadeirydd) o Mehefin 2022
Cyng. Angela Sandles o Mehefin 2022
Cyng. Louise Brown
Cyng. Paul Pavia

***Dau le gwag***

**AELODAU CYFETHOL**
***Dau le gwag***

**SWYDDOGION**
Sharon Randal Smith (Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad)
Mrs Hayley Jones (Partner EAS ar gyfer CGM a CYS)
Geraint Edwards (Cyfreithiwr, Cynghorydd Cyfreithiol)

**CLERK CYSAG**
Wendy Barnard (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd)
E-bost: wendybarnard3@monmouthshire.gov.uk

DRAFT

**ATODIAD 2:  RHESTR AC AGENDA CYFARFODYDD**

**Cyfarfod CYSAG Sir Fynwy**
**Dydd Mercher 26 Hydref 2022 am 10.00am, Hybrid.**

**AGENDA**
Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb;
Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ddydd Mercher 15 Mehefin 2022 a materion yn codi;
Cadarnhau Adroddiad Blynyddol 2021/22;
Diweddariad ar y cyfansoddiad;
Diweddariad ar aelodaeth a hyfforddiant aelodau:
Diweddariad Partner EAS ar CGM:

- Adnoddau CGM Llywodraeth Cymru
- Diweddariad Estyn
- Monitro darpariaeth a’r ffordd ymlaen
- Diwrnod Cofio’r Holocost 2023 – Syniadau ar gyfer cofio

Busnes CYSAG Cymru

i. Derbyn a nodi drafft gofnodion cyfarfodydd CYSAG Cymru
ii. Nodi dyddiadau cyfarfod nesaf CYSAG Cymru a chadarnhau cynrychiolwyr
iii. Hydref – Blaenau Gwent (dydd Mercher 16 am 1.00pm), Microsoft Teams

Unrhyw fater arall
Nodi dyddiad y cyfarfod nesaf sef 8 Mawrth 2023

**Cyfarfod CYSAG Sir Fynwy**
**Dydd Mawrth, 8 Mawrth 2023 am 10.00am, Hybrid**

Croeso ac ymddiheuriadau
Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2022 a materion yn codi
Cyfansoddiad a Chylch Gorchwyl CYS
Adroddiad Aelodaeth
Diweddariad Partner EAS ar CGM
Busnes CYSAG Cymru:

i. Cofnodion cyfarfod yr Hydref a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2022
ii. Enwebiadau Pwyllgor Gwaith CYSAG Cymru
iii. Llythyr CYSAG Cymru: Llywodraeth Cymru i gynnal ymchwio desg byr yn cynnwys edrych ar eiriad y meysydd llafur a gytunwyd ar gyfer pob awdurdod lleol i gael ymdeimlad o ba mor ffyddlon ydynt i weledigaeth ac ethos CGM yn y Cwricwlwm i Gymru..
iv. Cyfarfod Gwanwyn CYSAG Cymru: cynhelir y cyfarfod yn rhithiol gan CYSAG Sir Benfro ar ddydd Mawrth 21 Mawrth.

Unrhyw fater arall
Dyddiad y cyfarfod nesaf a chyfarfodydd y dyfodol:

- 14 Mehefin 2023 am 3pm (noder yr amser newydd)
- 13 Medi 2023, 3pm
- 6 Rhagfyr 2023, 3pm
- 13 Mawrth 2024, 3pm

DRAFT

**Cyfarfod CYS Sir Fynwy**
**Dydd Mercher, 14 Mehefin 2023 am 3pm. Hybrid.**

Cadarnhau penodiad gan y Cyngor o'r Aelod Cabinet dros Addysg fel Cadeirydd CYS
Penodi Is-gadeirydd
Croeso ac ymddiheuriadau
Nodi cofnod y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2023 (nid oedd cworwm)
Statws gyfreithiol newydd CYS: Geraint Edwards, Cyfreithiwr
Aelodaeth a Threfniadau Recriwtio y Dyfodol
Cymwysterau Cymru – Ymgynghoriad cynnig llawn cymwysterau 14-16:

- Dolenni'r ymgynghoriad:
- Dolen fideo: https://wasacre.org.uk/news/
- Saesneg: https://haveyoursay.qualifications.wales/hub-page/the-full-14-16-offer
- Cymraeg: https://dweudeichdweud.cymwysterau.cymru/hub-page/cefndir-y-cynnig-llawn14-16

Adroddiad Arolygu Sir Fynwy (Crynodeb)
Diweddariad Partner EAS ar CGM
Cynllunio ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol
Trefniadau i adolygu cynnydd ysgolion tuag at gyflwyno CGM
Busnes CYSAG Cymru

i. Cofnodion cyfarfod Gwanwyn CYSAG Cymru (21 Mawrth 2023)
ii. Cyfarfod Haf CYSAG Cymru – dydd Llun 19 Mehefin 2023)

Unrhyw fater arall
Dyddiad y cyfarfod nesaf a chyfarfodydd y dyfodol:

- 13 Medi 2023 am 3.00pm
- 6 Rhagfyr 2023 am 3.00pm
- 13 Mawrth 2023 am 3.00pm

DRAFT

## ATODIAD 3:  CYLCHREDEG YR ADRODDIAD

***Caiff copïau eu hanfon yn electronig i'r cyrff perthnasol. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol a gwefan CYSAG Cymru i rai sydd â diddordeb i'w lawrlwytho.***

Aelodau Cyngor Sir Fynwy

Cadeirydd Craffu Addysg

Cyfarwyddwr Rhanbarthol Gwasanaeth Ymgynghori Addysg (EAS) De Ddwyrain Cymru

Swyddog Addysg Llywodraeth Cymru gyda chyfrifoldeb am Addysg Grefyddol

Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu holl ysgolion y Fwrdeistref Sirol

Holl aelodau CYSAG

Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu pob Coleg yn y Fwrdeistref Sirol

Cymdeithas CYSAG Cymru

Gweinidog Addysg, Llywodraeth Cymru

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

ESTYN

DRAFFT